# Tir ar Werth

## Tir y tu ôl i Ceri Avenue, y Rhws



| | |
|---|---|
| **Disgrifiad** | Mae'r Rhws yn gymuned bentref arfordirol sy'n agos at Faes Awyr Cymru Caerdydd. Mae'n cynnwys Trwyn y Rhws sydd wedi'i ddynodi'n Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur. Mae Ceri Avenue mewn ardal breswyl ar gyrion y Rhws.<br>Mae'r tir yn ardal laswelltog wastad ar ddiwedd y man parcio a garej. |
| **Ardal** | Tua 156 metr sgwâr |
| **Mynediad** | Daw mynediad o Ceri Avenue ar hyd lôn rhwng 20a a 22 Ceri Avenue. |
| **Deiliadaeth** | Gwerthir y tir yn rhydd-ddaliadaeth gyda meddiant gwag. |
| **Hawliau** | Bydd mynedfa i gerbydau a cherddwyr yn cael ei rhoi ar hyd y llwybr a ddangosir ar y cynllun. Mae'r fynedfa hon ar gyfer mynediad domestig i gerbydau a cherddwyr i'r tir. Ni fydd parcio ar y fynediad. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i symud llwybr y fynedfa. Bydd y prynwr yn cyfrannu at waith adfer ar y fynedfa ar gais. |



| | |
|---|---|
| **Ystyried** | Gwahoddir cynigion dros £3,900 yn unol ag amodau cyflwyno cynigion.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn ei rwymo'i hun i dderbyn y cynnig uchaf nag unrhyw gynnig. Bydd derbyn cynnig yn 'Amodol ar Gontract'. Nid ymrwymir i unrhyw gytundeb o gwbl hyd nes y bydd y contractau wedi'u cyfnewid. |
| **Cyflwr** | Gwerthir y tir yn ei gyflwr presennol a thybir bod y prynwr wedi archwilio'r tir ac wedi bodloni ei hun ynglŷn â'r cyflwr. |
| **Cyfyngiadau ar Ddefnyddio** | Gall y tir fod yn addas at ddibenion garddio, garej ddomestig sengl a defnyddiau tebyg, yn amodol ar y caniatâd angenrheidiol. Y prynwr sy'n gyfrifol am wneud ei ymholiadau ei hun.<br><br>Ni fydd defnydd masnachol o'r tir.<br><br>Bydd gwerthu'r tir yn destun cyfamod cyfyngu a chymal adfachu am unrhyw newid mewn defnydd. |
| **Ffiniau** | Bydd y prynwr yn gyfrifol am godi a chynnal ffensys newydd ar hyd A-B-C-D-E fel y dangosir ar y cynllun. Bydd bwlch o 1m, fel y dangosir ar y cynllun, yn cael ei adael rhwng B-C a chornel y garej er mwyn caniatáu i'r Cyngor gael mynediad i ochr y garejys. |
| **Cynllunio** | Bydd y prynwr yn gyfrifol am unrhyw newid defnydd neu geisiadau cynllunio sydd eu hangen a chostau cysylltiedig.<br>Nid yw'r Cyngor yn gwarantu y bydd unrhyw geisiadau o'r fath yn cael eu cymeradwyo at y defnydd y mae'r tir yn cael ei brynu ar ei gyfer. Argymhellir bod y prynwr yn gwneud ymholiadau cynllunio cyn cyflwyno cynnig. |
| **Ymweliadau** | Mae'r safle ar agor i'w archwilio. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain a achosir. |
| **Indemniad** | Ar ôl ei gwblhau, bydd y prynwr yn cymryd yr holl fuddion, rhwymedigaethau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r tir dan sylw a bydd yn indemnio ac yn cadw'r gwerthwr yn erbyn pob hawliad yn y dyfodol mewn perthynas â'r tir dan sylw. |
| **TAW** | TAW wedi'i heithrio. |
| **Costau** | Y prynwr fydd yn gyfrifol am ffioedd syrfëwr y Cyngor ac unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol. |

**Dull Gwerthu** Mae'r tir ar werth drwy dendr anffurfiol ar sail y telerau ac amodau sydd wedi eu hatodi.
Dylid cyflwyno tendrau yn y modd a ragnodwyd a'u dychwelyd at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU yn yr amlen dendr swyddogol erbyn hanner dydd ar **25 Ionawr 2021**.Ni fydd unrhyw dendrau'n cael eu dosbarthu â llaw.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag:
Angela Bailey
Swyddog Ystadau
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn
Y Barri, CF63 4RT.
Ffôn: 01446 709756
strategicpropertyonevale@valeofglamorgan.gov.uk

Deddf Camliwio

Cynigir yr eiddo hwn yn amodol ar gytundeb, ac ar sail heb ragfarn.
Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gynnig a wneir, ac nid yw wedi ei rwymo i ddewis y cynnig uchaf, nac unrhyw gynnig am yr eiddo.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir, ond ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamliwiad a wneir yn y manylion hyn neu ar lafar. Rhaid i unrhyw barti â diddordeb fodloni ei hun bod y manylion hyn yn gywir. Defnyddir y manylion hyn fel canllaw cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o unrhyw gynnig neu gontract.